

# Is-reolwr Tîm - Tîm Cymorth wedi ei Dargedu
## Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
## Swyddfeydd y Sir, y Fflint

**G08 £44,428 - £47,420**

**Parhaol, 37 awr yr wythnos**

Mae'r Tîm Cymorth wedi'i Dargedu yn rheoli Gofal a Chefnogaeth i deuluoedd o fewn y Gwasanaethau Plant. Bydd gan yr atgyfeiriadau Asesiad Rhan 3 a Chynllun Rhan 4. Fel Is-reolwr Tîm, byddwch yn gyfrifol am ymateb i bob adroddiad a geir, gan eu dyrannu'n briodol neu eu rhoi i'r asiantaeth neu dîm mewnol perthnasol. Bydd disgwyl i'r Dirprwy Reolwr Tîm gysylltu a gweithio'n agos gydag asiantaethau statudol eraill. Byddwch yn ymuno â thîm sefydledig sy'n gweithredu o fewn cylch gwaith ein Gwasanaethau Plant, a byddwch yn gyfrifol am sicrhau y ffurfir polisïau a phrosesau, a'u bod yn cael eu dilyn.

Mae'n ofynnol eich bod yn ymarferydd cryf, llawn cymhelliant, gyda'r weledigaeth a'r symbyliad i gyflawni amrywiaeth o ofal cymdeithasol o ansawdd uchel, sy'n gost effeithiol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, i blant a'u teuluoedd, gan roi sylw penodol i risgiau sy'n gysylltiedig â'r plentyn a'i deulu.
Mae'r tîm hefyd yn cwblhau Gorchmynion Cymorth i Deuluoedd. Taliadau Uniongyrchol a Digartrefedd. Rydym yn mynd ag achosion i Amddiffyn Plant a Phlant sy'n derbyn gofal hefyd.

Gan weithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, mae'r swydd yn gofyn am ymroddiad, hyblygrwydd a dealltwriaeth drylwyr o'r holl safonau perthnasol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014). Mae'r swydd yn gofyn am y gallu i feithrin cydberthnasau effeithiol gyda thimau gwasanaethau cymdeithasol a chreu partneriaethau cydweithredol cadarn gydag asiantaethau eraill.

Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol.
Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru ac mae'r swydd yn amodol ar wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
Mae trwydded yrru'n hanfodol, oni bai fod anabledd yn atal hynny.
I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â:

Peter Robson (Rheolwr Gwasanaeth) ar Peter.Robson@Flintshire.gov.uk neu Andrew Drummond, (Rheolwr Tîm) ar Andrew.Drummond@flintshire.gov.uk

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil pwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r nifer o weithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi unrhyw aelodau staff newydd neu gyfredol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council